

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 12

Key language

Conditional tense of Gallu
Gan + preposition

New words

diweddara	latest
trawiad ar y galon	heart attack
parlysu	paralysed
dansherus (SW)	dangerous
becso	to worry
pam lai	why not
ladd	to kill
effeithio	to effect
bysedd	fingers
rhesymol	reasonable
ildio	to give in
dadl	debate
helynt	trouble
pwylgor	committee
haws	easier
barn	opinion
dyna'r cyfan	that's all
gynnau fach	a short while ago
trawiad ar y galon	heart attack
cael ei gladdu	being buried
canu'n bert (SW)	singing sweetly (pert - pretty)
h y n	older
pres (NW)	money
tywallt	to pour
nabod	to know (a person)
rwan hyn(NW)	this very minute
rhewi	to freeze
byr	short
dod o hyd i	to find
synnu	to be surprised
amheus	doubtful

Main Grammatical Points

Gallu

We have already come across various forms of gallu - to be able to or can as in Galla i - I can and Gallwn i - I could. Here is another tense.

Arwyn says to Jenny: mute button	Allet ti fod wedi gwasgu'r botwm mute - You could have pressed the
And Jenny responds: out of the room.	A gallet ti fod wedi mynd allan o'r stafell - And you could have gone

Here are the full forms

Gallwn i fod wedi	I could have
Gallet ti fod wedi	You could have
Gallai hi fod wedi	She could have
Gallai e or Gallai o fod wedi	He could have
Gallai Dic fod wedi	Dic could have

We could have
You could have
They could have

Look out for the north Wales form for 'to understand' - dallt

The south Wales form is deall but in north Wales they say dallt - Dw i ddim yn dallt - I don't understand

Ysbyty Brynaber: Episode 34

Marital problems abound in Brynaber. Agnes has a quiet word with Dic and offers him a word of advice about his relationship with Nurse Keating.

Jenny and Arwyn are discussing Christmas arrangements. Jenny is adamant that Arwyn's mother will not be with them over Christmas.

Geirfa

diweddara	latest
trawiad ar y galon	heart attack
parlysu	paralysed
synnu	to be surprised
dansherus (SW)	dangerous
becso (SW)	to worry
pam lai	why not
lladd	to kill
effeithio	to effect
bysedd	fingers
rhesymol	reasonable
ildio	to give in
dadl	debate

Golygfa 1

Agnes - Dr Allen? Richard?

Dic - Ie?

Agnes - O's eiliad ganddoch chi?

Dic - Oes...Pam?

Agnes - Eisiau gwybod os ydych chi wedi clywed unrhyw newyddion gan Nyrs Keating am ei thad ydw i...

Dic - Do...

Agnes - Beth yw'r diweddara 'te?

Dic - Ges i sgwrs gyda Wendy ar y ffôn neithwr...

Agnes - Ie, wel. Sut mae ei thad hi erbyn hyn, 'te?

Dic - Ddim trawiad ar y galon gafodd e...

Agnes - O? Nage?

Dic - Na...Thrombosis...

Agnes - Ydy e wedi ei barlysu 'te?

Dic - Na...Ddim mor ddrwg â hynny...Ond roedd Wendy mor emosiynol ar y ffôn...

Agnes - Mae hi'n unig ferch, on'd yw hi?

Dic - Ydy. A mae ei thad hi mewn dipyn o oedran...A dweud y gwir synnes i pa mor hen yw e...Mam

Wendy yw ei drydedd wraig e...

Agnes - Trydedd wraig?

Dic - Ie...Roedd e'n chwe deg un oed yn cael Wendy...

Agnes - Jiw jiw! Doeddwn i ddim yn gwybod hynny...

Dic - Na fi chwaith...Wel, ddim tan reithwr, ta beth...

Agnes - Felly - beth? - Mae Mr Keating dros ei saith deg 'te?

Dic - Bron iawn yn wyth deg...Ac mae Wendy'n becsio fydd e ddim gyda ni'n hir iawn 'to...

Agnes - Sdim dal...

Dic - Na, ond mae wyth deg yn oed...dansherus i gael thrombosis...Fe allai un arall eich lladd chi'n hawdd...

Agnes - Ydych chi'n mynd i'w gweld hi?

Dic - ydw. Dros y penwythnos. Os na fydd rhywbeth wedi digwydd...

Agnes - Rydych chi'n hoff iawn o Nyrs Keating, Doctor Allen?

Dic - Ydw...rydw i...

Agnes - Dipyn o 'whirlwind romance' yn ôl beth dw i'n glywed?

Dic - Ddweden i mo hynny...

Agnes - Jyst byddwch yn ofalus...

Dic - Gofalus? Beth ydych chi'n feddwl?

Agnes - Jyst yn y gwaith...Cofiwch pwy ydych chi. Junior Doctor. A trainee nyrs. Mae hynny'n gallu achosi problemau - dych chi ddim eisiau i emosiwn effeithio ar eich gwaith chi.

Dic - Diolch am y cyngor.

Agnes - Croeso. A beth am inni groesi'n bysedd a gobeithio bydd Mr Keating yn well yn fuan?

Dic - Ie. Pam lai?

Golygfa 2

Arwyn - ... Oedd...roedd yr Algarve yn fendigedig...Mas draw, Mam - do, joies i mas draw...Fe ddo i â'r lluniau draw i chi gael eu gweld nhw.....wrth gwrs bigwn ni chi lan ar gyfer gwasaneth carolau'r eglwys....Wrth gwrs, Mam...wrth gwrs hynny - peidwch â beco nawr...Dw i newydd roi cylch coch am y dyddiad ar y calendr sy lan ar wal y gegin...Do...Jyst nawr, Mam...Na, na...Wna i ddim anghofio...Wir nawr.....Dw i newydd wneud, Mam - yffach, sawl gwaith sy eisiau i fi ddweud? ...Iawn 'te, Mam...Cymrwch ofal...Hwyl....Allet ti fod wedi gwasgu'r botwm 'mute' ar y teledu tra roeddwn i'n siarad, Jenny...

Jenny - A gallet ti fod wedi mynd allan o'r stafell. Wedi'r cwbl, mae honna'n ffôn ddi-gord.

Arwyn - Mam.

Jenny - Ie.

Arwyn - Edrycha, Jen - ti'n gwbod pam ffoniodd hi...?

Jenny - Isio i ti roi lifft iddi i Wasanaeth Carolau'r Eglwys...

Arwyn - Na. Y gwir reswm. Dw i'n gwybod bod ti ddim isie hi 'ma...

Jenny - Mae hi wedi cael ei ffordd ei hun bob blwyddyn...Ond 'leni dydi hi ddim yn dod i'r ty 'ma dros y Nadolig.

Arwyn - A ble ti'n disgwyl iddi fynd?

Jenny - Aros lle mae hi. Yn y cartref henoed.

Arwyn - Dydy Mam ddim yn gofyn lot, Jen...

Jenny - Dw i ddim isio dy fam yma dros y Nadolig.

Arwyn - Ti'n gwneud pethau'n anodd iawn i fi.

Jenny - Mae hi'n pigo beiau drwy'r amser... ac mae'n rhaid i bawb blygu iddi hi... gwylio beth mae hi eisiau ar y teledu...Pryd mae hi eisiau...

Arwyn - Ond dim ond pedwar diwrnod o'r flwyddyn yw e.

Jenny - Pedwar diwrnod yn ormod.

Arwyn - Bydd yn rhesymol.

Jenny - Ers pryd mae hi wedi bod yn rhesymol hefo fi?

Arwyn - Rydyn ni'n cael y ddadl yma adeg hyn bob blwyddyn.

Jenny - Ydyn - a bob tro o'r blaen, dw i wedi ildio.

Arwyn - Plis.

Jenny - Na. Dewisa di Arwyn. Dy fam neu fi.

Ysbyty Brynaber: Episode 35

Agnes informs Brian that they have been invited to the Saunders' house for supper. Brian protests that he has already made arrangements.

Arwyn meets up with Dic and they discuss Brian Rees' neck injury. Dic receives some bad news.

Geirfa

helynt	trouble
pwyllgor	committee
haws	easier
barn	opinion
dyna'r cyfan	that's all
gynnu fach	a short while ago
trawiad ar y galon	heart attack
cael ei gladdu	being buried

Golygfa 1

Brian - Beth? Mae Jenny Saunders newydd ffonio jyst rwan?

Agnes - Do. Tua pum muned nôl...

Brian - Ugain munud i naw y bore? Bobol bach! Galwad ffôn gynnar iawn. Beth oedd hi eisiau?

Agnes - Wnaeth hi hintio wythnos diwetha ei bod hi eisiau gwahodd ti a fi nôl i'w ty nhw am bryd o fwyd... 'Return match'.

Brian - At y gwr "pompous" 'na?

Agnes - Dyw Arwyn mor ddrwg â hynny. Ddim ar ôl iti ddod i'w nabod e. Mae e'n gwella...

Brian - Gwella? Ti'n cofio Noson Guto Ffowc yn y ty 'ma? Ti'n cofio sut oedd o'n trio deud wrtho i beth i wneud?

Agnes - Ddwedes i byddai nos yfory yn iawn.

Brian - Nos yfory?

Agnes - Ie...

Brian - Alla i ddim nos yfory...

Agnes - Pam?

Brian - Mae gen i gyfarfod...

Agnes - Ble?

Brian - Pwyllgor Rali AA y Sir...

Agnes - All i ddim colli un pwyllgor?

Brian - Dw i wedi addo rhoi liff draw i Jac Whelan... Chwarae teg. Mae'r boi yn 'banned' am ddeunaw mis ar ôl yr helynt 'drink drive' yna adag y Steddfod... Sori. Ond allwn ni ddim mynd draw i dy Arwyn a Jenny rhyw noson arall?

Agnes - Dw i wedi gweud wrth Jenny ein bod ni'n gallu mynd nos yfory nawr.

Brian - Cansla.

Agnes - Canslo? Mae e'n 'embarrassing'. Pam na wnei di ganslo pwyllgor y Rali?

Brian - Dw i wedi dweud pam na alla i ddim...!

Agnes - Fyddai fe'n lot haws i ti ganslo...

Brian - Aw!

Agnes - Beth sy'? Dy wddw di...?

Brian - Ia. Dydy'r cric yma byth wedi mynd, ti'n gwybod.

Agnes - Wyt ti'n rhoi'r eli 'na ymlaen o hyd?

Brian - Ydw...

Agnes - Efallai byddai hi'n well iti gael ail farn.

Brian - Efallai wir. Dw i ddim yn siwr os oedd y doctor ifanc 'na, y Doctor Allen 'na'n dallt beth oedd o'n wneud yn iawn.

Agnes - Gaf fi sgwrs gyda doctor arall yn y sbyty 'ma. A gweld beth sy' gyda fe neu hi i ddweud...

Brian - A canslo nos yfory hefyd.

Agnes - Brian - allwn ni ddim! Edrycha faint o'r gloch ydy hi! Well i fi fynd â'r plant i'r ysgol nawr neu fyddwn ni'n hwyr. Rhodri! Beca! Dewch nawr, dw i'n mynd...!

Brian - Hwyl.

Agnes - Hwyl!

Brian - Heia, Linda? All di siarad? Be? Mae Tony o gwmpas? Na, newyddion drwg. Rho ring i fi nes mlaen 'ta...

Golygfa 2

Arwyn - Dr Allen? Pa lawr ydych chi eisiau?

Dic - Tri - plis.

Arwyn - A fi. Lwc inni daro ar ein gilydd yn y lifft 'ma nawr...achos roeddwn i eisiau gair gyda chi.

Dic - O? Am beth?

Arwyn - Claf. Brian Rees, gwr Sister Agnes Rees...

Dic - O, ie... weles i e wythnos diwetha...Roedd e'n becsio 'bytu whiplash...

Arwyn - A beth oedd eich barn chi?

Dic - 'Sore neck.' Dyna'r cyfan oedd e.

Arwyn - Dyna'r cyfan?

Dic - Ie. Pam?

Arwyn - Nethoch chi ei holi e'n fanwl?

Dic - Do. Dim 'dizziness'. Dim pinnau bach yn ei freichiau. A doedd e ddim wedi bod yn twlu lan.

A doedd dim byd ar yr X-ray chwaith. Felly cafodd e'r 'all clear' ...

Arwyn - Ofynnoch chi i Brian Rees os oedd e wedi cael whiplash yn y gorffennol?

Dic - Naddo...

Arwyn - Pam?

Dic - Soniodd e ddim...A wnes i ddim meddwl gofyn...

Arwyn - Ddim meddwl gofyn? Wnaethoch chi ddim meddwl gofyn?

Dic - Naddo...

Arwyn - Dydych chi ddim yn meddwl gallai hwn fod yn achos o 'cervical disk syndrome', Dr Allen?

Ydych chi wedi clywed 'bytu 'nny?

Dic - Ydw, wrth gwrs fy mod i...

Arwyn - Beth yw'r cam nesa 'te?

Dic - Galw Brian Rees yn ôl fel gallwn ni roi 'surgical collar' iddo fe.

Arwyn - Good. Dyna'r ateb o'n i moyn glywed. Gwell inni gyd fod siwr. Dydyn ni ddim eisiau pobol yn dechrau siwio'r ysbyty ydyn ni? Beth sydd? Oes rhywbeth o'i ie?

Dic - Ym...

Arwyn - Dwedwch os oes...

Dic - Tad nyrs Keating...Ffonodd hi gymau fach...Mae e wedi marw o drawiad ar ei galon bore 'ma...

Arwyn - Mae'n ddrwg gyda fi glywed.

Dic - Ie...Wel...Mae e'n cael ei gladdu dydd Llun...

Ysbyty Brynaber: Episode 36

Arwyn, Jenny, Agnes and Brian are just about to sit down for a meal at the Saunders household. The door bell rings and Jenny says that a certain Tony has called asking to have a word with Brian.

Geirfa

hy n	older
pres (NW)	money
tywallt	to pour
nabod	to know (a person)
rhewi	to freeze
canu'n bert (SW)	singing sweetly (pert - pretty)
byr	short
rwan hyn(NW)	this very minute
dod o hyd i	to find
synnu	to be surprised
amheus	doubtful

Golygfa 1

Jenny - Arwyn - roi di rywbeth bach i'r côr?
Arwyn - A plant y stad sy'n canu, ie?
Jenny - Dw i'n meddwl...
Agnes - Maen nhw'n canu'n bert iawn, ta beth.
Jenny - Ti'n siwr dy fod ti'n iawn, Brian?
Brian - Ydw...jyst bod y golar surgical 'ma braidd yn stiff...
Agnes - Fyddi di ddim yn gorfod ei gwisgo am hir...
Jenny - Reit 'te. Pawb yn barod am fwyd?
Arwyn - Criw yr eglwys oedden nhw...ddim plant y stad...
Agnes - Fydd hi'n ddydd Nadolig cyn inni droi rownd..
Arwyn - A'r flwyddyn newydd wedyn.
Brian - A pawb ohonon ni flwyddyn arall yn hy n!
Jenny - Reit 'ta...'Steddwch... Brian - ti draw yn y gadair yn fan acw...Agnes - dere di i fan hyn...
Jenny - Pwy sy wrth y drws rwan eto?
Brian - Y côr eisiau mwy o bres, beryg...!
Arwyn - Anghofiwch y gloch!...Reit 'te. Pwy sy moyn gwin gwyn? A pwy sy moyn gwin coch?
O, yffach! Plant y stad yn moyn arian cyn dechrau canu, siwr o fod...
Jenny - Tywallt di y gwin, Arwyn - ac mi â i atyn nhw...
Arwyn - Agnes? Coch neu gwyn?
Agnes - Coch, plis.
Arwyn - Brian?
Brian - Gwyn...
Jenny - Brian...
Brian - Ia?
Jenny - Rhywun i ti...
Brian - Fi?
Jenny - Rhyw ddyn ifanc eisiau dy weld di...
Brian - Rwan?
Agnes - Beth? Adeg hyn o'r nos? Yffach! Pwy yw e?
Jenny - Mae o'n deud mai Tony ydy ei enw fo...
Brian - ...Tony?
Jenny - Ia...A dy fod ti'n ei nabod o'n iawn, medda fo...
Brian - Tony? Ti'n siwr?
Agnes - Tony? Tony, pwy?
Arwyn - Tony o Tony ag Aloma, ie?
Jenny - Wnaeth o ddim dweud dim byd arall, Brian...Jyst ei enw. Tony. A dy fod ti'n ei nabod o'n iawn. A bod o eisiau gair hefo ti rwan hyn...
Arwyn - Edrycha, Brian - ti moyn i fi ofyn iddo fe adael?
Agnes - Tony? Pwy yw Tony? A sut oedd e'n gwybod ble i ddod o hyd i ti? Sut oedd e'n gwybod

dy fod ti fan hyn yn nhŷ Arwyn a Jenny?

Arwyn - Jehovas Witness, ie? Dyna beth yw'r Tony hyn, ydych chi'n meddwl?

Jenny - Paid â siarad lol, Arwyn.

Arwyn - Dwyt ti byth yn gw'bod dyddiau hyn...

Agnes - Dere mlaen, Brian, cariad. Well iti fynd i ga'el gair gyda fe, ie? Dw i'n siwr fod y boi'n rhewi mas ar stepen y drws 'na...

Brian - O.K.....Esgusodwch fi am eiliad...

Agnes - Od, ynte?

Jenny - Ie, braidd...Boi byr, gwallt tywyll hefo spectol tinted ydy o...

Agnes - Boi byr, gwallt tywyll gyda sbectol tinted?

Arwyn - Wel, dw i ddim yn synnu bod rhyw foi wedi troi lan yma fel hyn...

Jenny - Nag wyt ti? A ni ar ganol bwyta?

Arwyn - Mae pob siort yn troi lan ar stepen drws rhywun bob awr o'r dydd a'r nos erbyn hyn. 'Crooks' a 'con-men' o bob math. Wy'n cofio rhyw ddau - rhyw ddyn a rhyw fenyw o Wolverhampton yn galw ein ty ni mis Awst diwetha -

Jenny - Dim Wolverhampton ond Brighton, Arwyn. Dau o Brighton oedden nhw -

Arwyn - Brighton 'te. Sdim ots oes e?

Jenny - Dim ond dweud ydw i -

Arwyn - Ond o ble bynnag oedden nhw wedi dod, roedd golwg ddigon od a golwg ddigon amheus ar y ddau. Ac ydych chi'n gwybod beth oedd eu gêm nhw?

Agnes - Na. Beth?

Arwyn - Treal gwerthu pob math o sothach. Brwshus, cadachau, pegiau, sebon. A beth oedd waetha: roedd y ddau wedi sgrifennu mewn 'crayon' ar ddarn o garbord eu bod nhw'n fud ag yn fyddar!

Agnes - Na?

Arwyn - Wir! Wel wel! Ydych chi'n gwybod beth? Siaradais i ddim byd ond Cymrag â'r ddau ac roedden nhw'n ffael deall gair roeddwn i'n ei ddweud chwaith! Ha! -

Arwyn - Yffach! Beth oedd y swm yna?

Jenny - Cwpwrdd gwydr y cyntedd ydy o!

Arwyn - Ydyn nhw'n ymladd neu beth?

Agnes - Brian? Brian - wyt ti'n iawn?

Jenny - Be yn y byd mawr sy'n digwydd?

Agnes - Brian? Brian, cariad - wyt ti'n iawn? Plis, Brian - plis dwed rhywbeth wnei di?

Synopsis

Brian and Agnes were invited to Arwyn and Jenny Saunders' house. Someone called and asked to see Brian. There was a terrible commotion when Brian went to speak to the man at the door.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'You could have'?
 - a) Allet ti
 - b) Allet ti fod
 - c) **Allet ti fod wedi**
2. Translate 'with him' into Welsh
 - a) gan fe
 - b) **ganddo fe**
 - c) ganddi hi
3. What is the Welsh for 'a short while ago'?
 - a) amser maith yn ôl
 - b) prynhawn ddoe
 - c) **gynnaau fach**
4. What's the word in north Wales for 'money'?
 - a) ceiniog
 - b) punt
 - c) **pres**
5. What's the word in south Wales 'singing sweetly'?
 - a) canu'n ofnadwy
 - b) **canu'n bert**
 - c) canu'n dawel
6. How would you translate the Welsh phrase 'that's all'?
 - a) **dyna'r cyfan**
 - b) dyna ni
 - c) dyna bawb